# SL(6)590 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rheoliadau presennol er mwyn:

(i) cynyddu'r capiau ar ffioedd dysgu cyrsiau gradd llawnamser;
(ii) cymhwyso'r capiau hyn i'r holl bersonau cymhwysol ar gyrsiau cymhwysol mewn sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025; a
(iii) cynyddu swm y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025 yn unol â hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 1(3) yn darparu bod rheoliad 3 yn gymwys mewn perthynas â "*blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025…*". Diffinnir y term "blwyddyn academaidd" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017, ond nis diffinnir yn y Rheoliadau hyn.
O ganlyniad, nid yw'n amlwg a fwriedir i "blwyddyn academaidd" gael yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn â'r un a ragnodir gan y diffiniad yn Rheoliadau 2017. Mae'n werth nodi bod deddfwriaeth addysg ddiweddar arall (megis Rheoliadau Addysg (Ffioedd, Dyfarniadau a Chymorth Myfyrwyr) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 a Rheoliadau Addysg (Ffioedd, Dyfarniadau a Chymorth Myfyrwyr) (Diwygio) 2025) wedi cynnwys diffiniad o'r term "blwyddyn academaidd".

Er mwyn darparu eglurder ynghylch ystyr arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r term ac i osgoi dryswch posibl i'r darllenydd, rydym o'r farn y dylid cynnwys diffiniad o'r term "blwyddyn academaidd" yn y Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.